Cyngor Osteopathig Cyffredinol

# Nodyn Ymarfer: Holi Tystion

**Tachwedd 2022**

## Cyflwyniad

1. Mae'r Nodyn Ymarfer hwn yn canolbwyntio ar holi tystion yn briodol, yn cynnwys osteopathiaid sy'n destun ymchwiliad, pa un a fyddant yn mynychu'r gwrandawiad yn y cnawd, neu'n cyflwyno tystiolaeth o bell, gerbron Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (PCC) y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC).

2. Mae'r GOsC wedi ymrwymo i sicrhau y cyflawnir ei swyddogaeth ddyfarnu mewn modd teg, effeithiol a thryloyw.

3. Nodir y gweithdrefnau a ddilynir gan y PCC yn adran 22 o Ddeddf Osteopathiaid 1993 (y Ddeddf), ac yn Rheolau 2000 (Gweithdrefn) y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (Rheolau'r PCC).

4. Yn ôl paragraff 21 Atodlen y Ddeddf, mae gan y PCC y pŵer i reoleiddio'i weithdrefnau ei hun. Mae'n defnyddio'r pŵer hwn i reoli'r gweithdrefnau a ddilynir mewn gwrandawiadau. Rhaid i'r PCC roi sylw i amcan cyffredinol y GOsC, sef amddiffyn y cyhoedd.

5. Caiff tystion fynychu'r gwrandawiad i roi tystiolaeth lafar. Gellir cael rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth lafar yn Nodyn Ymarfer 2014/04.[1] Efallai y bydd y PCC yn gofyn cwestiynau i'r tystion. Mae'r Nodyn Ymarfer yn anelu at ategu'r broses hon.

## Rôl y Cadeirydd

6. Rhaid trin pawb a fydd yn ymddangos gerbron y PCC gyda chwrteisi ac mewn modd ystyriol. Felly, dylai Cadeirydd Panel y PCC (y Cadeirydd) sicrhau bod modd i'r holl dystion (yn cynnwys yr osteopath) gyflwyno'u tystiolaeth orau ac ymgysylltu'n effeithiol â'r broses. Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod pawb yn cael eu cyflwyno'n anffurfiol a bod rheolau cyffredinol a threfniadau'r gwrandawiad yn cael eu hesbonio ar y cychwyn, er mwyn tawelu meddyliau'r holl gyfranogwyr a'u galluogi i ymgysylltu'n effeithiol ar yr adegau priodol drwy gydol y gwrandawiad. Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod modd deall y cwestiynau a ofynnir. Hefyd, dylai'r Cadeirydd gadarnhau bod unrhyw drefniadau arbennig, e.e. system dolen sain, ar waith. Ymhellach, rhaid ystyried materion diwylliannol. Er enghraifft, os yw'r tyst yn ymprydio, efallai y bydd angen egwylion ychwanegol.

[1] Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gyflwyno tystiolaeth a'r broses sydd ynghlwm wrth wrandawiadau yma: osteopathy.org.uk/standards/complaints/hearings/attending-a-hearing/witness-guidance

7. Y Cadeirydd sy’n gyfrifol am sicrhau bod y gwrandawiad yn cael ei reoli’n briodol a’i fod yn mynd rhagddo’n iawn. Dylai’r Cadeirydd atgoffa pawb bod y gwrandawiad yn achos proffesiynol ac y dylai ymddygiad pawb adlewyrchu hynny. Bydd modd i’r Cadeirydd ymyrryd pe bai’n credu bod hynny’n angenrheidiol, er mwyn sicrhau gwrandawiad teg. Er enghraifft, pan fo’r cwestiynau a ofynnir i’r tyst yn ailadroddus, pan fo’r dull holi yn rhy ymosodol neu pan ymddengys fod y tyst o dan straen gormodol. Ond yn gyffredinol, ni ddylai fod yn angenrheidiol i’r Cadeirydd dorri ar draws y partïon neu eu cynrychiolwyr pan fyddant yn gofyn cwestiynau. Pan fydd y panelwyr yn gofyn cwestiynau, dylai’r Cadeirydd reoli’r broses hon, ond dylai pob aelod o’r PCC gael cyfle i ofyn eu cwestiynau eu hunain. Efallai y bydd y Cadeirydd yn dymuno siarad ag aelodau’r PCC yn breifat cyn iddynt ofyn eu cwestiynau er mwyn cynorthwyo i ddosrannu’r cwestiynau a’u rhoi mewn trefn.

**Rôl y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (PCC)**

8. Dylai’r panelwyr gymryd rhan weithredol mewn achosion cymhwyster i ymarfer, gan sicrhau y caiff yr achosion eu cyflwyno’n briodol ac y rhoddir y dystiolaeth berthnasol gerbron y PCC.[2] Er y gellir gofyn cwestiynau i gadarnhau materion yr ymdriniwyd â nhw’n gynharach yn y dystiolaeth, gellir gofyn cwestiynau eraill hefyd, oherwydd amcan y gwrandawiad yw galluogi’r panel i ddod i’r penderfyniad iawn fel y gellir amddiffyn cleifion a’r cyhoedd.

9. Bydd modd i’r PCC ganiatáu tystiolaeth (yn cynnwys tystiolaeth lafar) sy’n berthnasol i’r honiadau a ystyrir gan y PCC, cyn belled â bod y dystiolaeth honno’n deg i’r partïon, a chyn belled â bod caniatáu tystiolaeth o’r fath er budd cyfiawnder.

10. Dylai’r panelwyr ofyn cwestiynau ac archwilio materion sydd, yn eu tyb nhw, yn berthnasol, hyd yn oed os ymddengys nad yw’r partïon yn bwriadu crybwyll y materion arbennig hynny. Rhaid i gwestiynau’r PCC fod yn berthnasol i’r materion o dan sylw ac i’r penderfyniadau y bydd yn rhaid eu gwneud. Bydd yn briodol i’r panelwyr ofyn cwestiynau os ydynt o’r farn nad ymdriniwyd yn ddigonol ag unrhyw fater.

11. Fodd bynnag, nid pwrpas y PCC yw sicrhau bod tystion yn cael eu ‘croesholi’, a dylai arddull a natur y cwestiynau a ofynnir gan aelodau’r Pwyllgor fod yn wahanol i’r arddull a allai fod yn fwy priodol i gynrychiolwyr a fydd yn cyflwyno ar ran un o’r partïon.

12. Mae hi’n rhesymol i aelodau’r PCC brofi adroddiad y tystion i raddau priodol; a phe bai aelodau’r PCC yn ofni nad yw tyst yn dweud y gwir ynglŷn â rhyw fater, mae ganddynt hawl i holi’r tyst ynglŷn â’r mater ac ystyried a fydd hyn yn effeithio ar y modd y byddant yn asesu tystiolaeth y tyst.

---

[2] Y Cyngor Rheoleiddio Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol v Y Cyngor Meddygol Cyffredinol a Ruscillo, a’r Cyngor Rheoleiddio Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol v Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Truscott [2005] 1 WLR 717 [79-80]

13. Er tegwch, rhaid holi'r osteopath ynglŷn â'r holl honiadau cynhennus a gaiff eu dwyn yn ei erbyn. Fel arfer, y Swyddog Cyflwyno a fydd yn gwneud hyn ar ran y GOsC, ond dylai'r PCC sicrhau bod yr osteopath yn cael cyfle i'w esbonio'i hun neu i'w amddiffyn ei hun yn erbyn yr honiadau.

14. Mae gan yr osteopath hawl i gael gwrandawiad annibynnol a diduedd gerbron y PCC. Felly, ym mhob agwedd ar ymddygiad aelodau'r Pwyllgor, gan gynnwys wrth ofyn cwestiynau, rhaid i'r PCC sicrhau na cheir unrhyw amgylchiadau a allai beri i arsylwr teg a gwybodus ddod i'r casgliad bod yna bosibilrwydd gwirioneddol y gallai'r tribiwnlys fod yn rhagfarnllyd.

**Cwestiynau priodol**

15. Mae'n bwysig sicrhau bod y cwestiynau a ofynnir i'r tystion yn cael eu gofyn ar adeg briodol yn ystod yr achos. Fodd bynnag, mae'n rhesymol i aelodau'r PCC ofyn cwestiynau a all fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn eu trafodaethau, oherwydd mae'n arferol galw'r tyst neu'r osteopath yn ôl i gyflwyno rhagor o dystiolaeth yn ddiweddarach yn yr achos.

16. Felly, os yw'r cwestiynau'n ymwneud â cham posibl, megis gofyn cwestiynau i'r osteopath ynglŷn â dealltwriaeth ac adfer, dylai'r panelwyr fod yn ofalus wrth lunio'r cwestiwn er mwyn osgoi'r argraff eu bod wedi rhagfarnu unrhyw un o'r materion neu'r camau cynharach.

17. O ran y cwestiynau:
    a) dylent fod yn berthnasol, yn deg ac yn angenrheidiol er mwyn i'r PCC allu gwneud penderfyniad ynglŷn â'r materion yn yr achos
    b) dylent gael eu mynegi mewn modd eangfrydig
    c) dylent fod yn gwestiynau yn hytrach nag yn ddatganiadau
    d) dylent fod yn syml, a dylid defnyddio geiriau y gellid disgwyl i'r tyst eu deall
    e) pa bryd bynnag y bo modd, dylent ddilyn trefn amser
    f) dylid eu gofyn fesul un ar y tro a
    g) dylid rhoi amser i'r tyst ateb y cwestiynau'n llawn, heb i neb dorri ar ei draws

18. Efallai y byddai'n fuddiol i aelodau'r PCC gyfeirio'r tystion at ddogfennau os yw'r dogfennau hynny'n sail i'r cwestiynau. Er enghraifft, gellid cyfeirio at ddogfen lle cyflwynir adroddiad amgen am ryw ddigwyddiad, er mwyn galluogi'r tyst i ymdrin ag unrhyw anghysondebau.

19. Mae'n bosibl y bydd cwestiynau treiddgar yn cael eu gofyn, a gallai hynny beri i'r tystion deimlo'n anghyfforddus.

20. O ran y cwestiynau:
    a) ni ddylent fod yn elyniaethus nac yn ymosodol
    b) ni ddylent fod yn ailadroddus heb raid, a dylid rhoi sylw i gwestiynau a ofynnwyd eisoes gan y cynrychiolwyr a chan aelodau eraill y PCC.

21. Yn ystod y gwrandawiad, ac yn arbennig wrth ofyn cwestiynau, dylai aelodau'r PCC fod yn ymwybodol o'u dulliau cyfathrebu dieiriau nhw eu hunain (ynghyd â dulliau cyfathrebu dieiriau pobl eraill). Gall codi neu ysgwyd bys, codi llais, tôn y llais, ochneidio, ystumio'r wyneb, neu ystumiau ymosodol eraill, droi dull holi priodol yn ddull holi amhriodol.

22. Drwy gydol yr holi, rhaid parhau i ddarparu unrhyw addasiadau rhesymol y cytunwyd arnynt. Gall hyn gynnwys sicrhau bod yr amseroedd bras a nodir yn neilltuo amser ar gyfer trefniadau arbennig, megis egwylion aml, er mwyn sicrhau bod modd i'r tyst allu parhau i ganolbwyntio'n iawn neu er mwyn ei alluogi i fodloni anghenion crefyddol neu ddiwylliannol, megis gweddïo ar adegau penodol.

23. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd y Cadeirydd yn gohirio'r gwrandawiad am gyfnod byr er mwyn i aelodau'r PCC allu cytuno ymlaen llaw ar y cwestiynau y dymunant eu gofyn i'r tyst, gan sicrhau felly bod y cwestiynau'n benodol ac yn sensitif, ac na fyddant yn peri unrhyw drawma o'r newydd i'r tyst.

24. Os bydd y tyst yn llawn gofid neu'n ymddwyn mewn modd dryslyd, neu os ymddengys ei fod wedi gorflino, bydd modd i'r Cadeirydd neu'r Cynghorydd Cyfreithiol awgrymu y dylid gohirio'r gwrandawiad am gyfnod byr. Dylid atgoffa'r tystion y byddant yn parhau i fod wedi tyngu llw neu'n parhau i fod o dan gadarnhad yn ystod egwylion o'r fath. Os cynhelir y gwrandawiad o bell, dylai'r PCC fod yn arbennig o ymwybodol y gall unigolion nad ydynt yn cyfathrebu'n rheolaidd mewn lleoliad o bell fynd i deimlo braidd yn ddryslyd ac y gallant ei chael hi'n anodd dilyn yr hyn sy'n digwydd, yn enwedig o gofio bod y broses gyfreithiol yn anghyfarwydd iddynt. Hefyd, mae'n bosibl y bydd hi'n anodd sylwi ar iaith y corff ac arwyddion gofid os cynhelir y gwrandawiad o bell. Tra bydd y tystion yn cyflwyno'u tystiolaeth, efallai y byddai'n fuddiol i'r Cadeirydd ofyn yn rheolaidd iddynt a ydynt yn teimlo'n iawn.[3]

25. Pan fydd tyst yn siarad yn ei ail iaith, dylai'r PCC sicrhau bod y tyst wedi deall y cwestiynau'n iawn. Dylai'r PCC fod yn ymwybodol y gallai tystion o'r fath fod angen cymorth cyfieithydd tra byddant yn cyflwyno'u tystiolaeth (os na threfnwyd hynny cyn i'r gwrandawiad ddechrau).[4]

---

[3] Mae'r GOsC yn cynnig Gwasanaeth Cymorth Annibynnol i dystion, yn cynnwys i'r rhai sydd wedi cofrestru. Mae'r gwasanaeth hwn yn annibynnol ar y GOsC a chaiff ei redeg gan wirfoddolwyr yr elusen Cymorth i Ddioddefwyr. Gall tystion siarad â'r GOsC a gofyn am gael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth, neu fel arall gallant eu hatgyfeirio'u hunain at y gwasanaeth trwy ffonio 0300 303 1964. Mae'r llinell gymorth ar agor 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae gweithwyr achosion ar gael i gynnig cymorth parhaus ddydd Lun i ddydd Gwener, 8am-6pm (ac eithrio gwyliau banc).

[4] Caiff ein cyfarfodydd 'yn y cnawd' eu cynnal yn Lloegr a thrwy gyfrwng y Saesneg. Cyn cynnal gwrandawiadau'n ymwneud ag osteopathiaid sy'n ymarfer yng Nghymru, gofynnir i aelodau o'r cyhoedd a fydd yn cyflwyno tystiolaeth a ydynt yn dymuno annerch y gwrandawiad yn y Gymraeg; ac os felly, bydd trefniadau cyfieithu ar y pryd yn cael eu gwneud.

26. Dylai'r Cadeirydd neu'r Cynghorydd Cyfreithiol ymyrryd yn ystod y cwestiynau pe bai angen, er mwyn sicrhau cywirdeb a thegwch yr achos. Pe bai gan y Swyddog Cyflwyno neu gynrychiolydd yr osteopath unrhyw bryderon, dylid eu crybwyll yn uniongyrchol wrth y Cadeirydd.

**Rhagor o wybodaeth**

27. Mae'r Nodyn Ymarfer hwn yn perthyn i gyfres o Nodiadau Ymarfer[5] a luniwyd gan y GOsC.

28. I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau a chanllawiau'r PCC, edrychwch ar wefan y GOsC – osteopathy.org.uk/standards/complaints/hearings – neu cysylltwch â'r Adran Reoleiddio ar +44 (0)20 7357 6655 estyniad 224.

[5] Gellir dod o hyd i'r Nodiadau Ymarfer ar ein gwefan: osteopathy.org.uk/concerns/guidance